



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2018 Rhif 1021 (Cy. 212)**

**2018 No. 1021 (W. 212)**

**TIROEDD COMIN, CYMRU**

**COMMONS, WALES**

Rheoliadau Meysydd Tref a  
Phentref (Datganiadau Perchnogion  
Tir) (Cymru) 2018

The Town and Village Greens  
(Landowner Statements) (Wales)  
Regulations 2018

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Caniateir i dir gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (“Deddf 2006”). Un o nodweddion pob un o'r amgylchiadau hynny yw bod rhaid bod nifer sylweddol o drigolion unrhyw ardal leol, neu unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol, wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon ‘drwy hawl’ ar y tir o dan sylw am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf.

Land may be registered as a town or village green in the circumstances specified in section 15 of the Commons Act 2006 (“the 2006 Act”). A characteristic of each of those circumstances is that a significant number of the inhabitants of any locality, or of any neighbourhood within a locality, must have indulged ‘as of right’ in lawful sports and pastimes on the land in question for a period of at least 20 years.

Mae adran 15A(1) o Ddeddf 2006 yn caniatáu i berchennog tir o'r fath adneuo datganiad gyda'r awdurdod cofrestru tiroedd comin, ac effaith hyn yw dwyn i ben unrhyw gyfnod lle mae personau wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon drwy hawl ar y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef. Rhaid i fap fynd gyda'r datganiad.

Section 15A(1) of the 2006 Act permits the owner of such land to deposit with the commons registration authority a statement, the effect of which is to bring to an end any period during which persons have indulged as of right in lawful sports and pastimes on the land to which the statement relates. The statement must be accompanied by a map.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adneuo datganiadau o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006 a materion cysylltiedig.

These Regulations make provision in respect of the deposit of statements under section 15A(1) of the 2006 Act and associated matters.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi ffurf y datganiad y caniateir ei adneuo gyda'r awdurdod cofrestru tiroedd comin a ffurf y map y mae'n rhaid iddo fynd gyda'r datganiad.

Regulation 3 prescribes the form of statement that may be deposited with the commons registration authority and the form of the map which must accompany it.

Mae rheoliad 4 yn galluogi'r awdurdod cofrestru tiroedd comin i ragnodi ffi resymol mewn perthynas ag adneuo datganiad.

Regulation 4 enables the commons registration authority to prescribe a reasonable fee in relation to the deposit of a statement

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phryd y mae datganiad i'w drin fel pe bai wedi ei adneuo gyda'r awdurdod cofrestru tiroedd comin.

Regulation 5 makes provision relating to when a statement is to be treated as having been deposited with the commons registration authority.

Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r modd y mae'n rhaid i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin reoli'r broses o adneuo datganiad, a rhoi cyhoeddusrwydd iddi.

Mae rheoliad 7 yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â gwybodaeth benodol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr sy'n ofynnol o dan adran 15B(1) o Ddeddf 2006.

Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r modd y mae'n rhaid i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin gadw'r gofrestr honno sy'n ofynnol o dan adran 15B(1) o Ddeddf 2006, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â fersiynau papur a fersiynau electronig.

Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin dynnu cofnod o'r gofrestr honno, neu unrhyw ran o gofnod, yn achos camgymeriad perthnasol, yn ddarostyngedig i hysbysiad blaenorol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 6 makes provision relating to the manner in which the commons registration authority must manage and publicise the deposit of a statement.

Regulation 7 contains requirements relating to specific information that must be included in the register required under section 15B(1) of the 2006 Act.

Regulation 8 makes provision relating to the manner in which that register required under section 15B(1) of the 2006 Act must be kept by the commons registration authority, including requirements relating to paper and electronic versions.

Regulation 9 makes provision which permits the commons registration authority to remove an entry from that register, or any part of an entry, in the case of a material error, subject to prior notice.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2018 Rhif 1021 (Cy. 212)**

**2018 No. 1021 (W. 212)**

**TIROEDD COMIN, CYMRU**

**COMMONS, WALES**

**Rheoliadau Meysydd Tref a  
Phentref (Datganiadau Perchnogion  
Tir) (Cymru) 2018**

**The Town and Village Greens  
(Landowner Statements) (Wales)  
Regulations 2018**

*Gwnaed* 19 Medi 2018

*Made* 19 September 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 24 Medi 2018

*Laid before the National Assembly for Wales*  
24 September 2018

*Yn dod i rym* 22 Hydref 2018

*Coming into force* 22 October 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r awdurdod cenedlaethol priodol gan adrannau 15A, 15B a 59 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the appropriate national authority by sections 15A, 15B and 59 of the Commons Act 2006(1), make the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, commencement and application**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Meysydd Tref a Phentref (Datganiadau Perchnogion Tir) (Cymru) 2018 a deuant i rym ar 22 Hydref 2018.

1.—(1) The title of these Regulations is the Town and Village Greens (Landowner Statements) (Wales) Regulations 2018 and they come into force on 22 October 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Rheoliadau hyn—

2. In these Regulations—

ystyr “yr awdurdod” (“*the authority*”) yw'r awdurdod cofrestru tiroedd comin;

“the 2006 Act” (“*Deddf 2006*”) means the Commons Act 2006;

ystyr “cofrestr” (“*register*”) yw'r gofrestr y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei chadw o dan adran 15B(1) o Ddeddf 2006 mewn cysylltiad â mapiau a datganiadau a adneuir o dan adran 15A o'r Ddeddf honno;

“the authority” (“*yr awdurdod*”) means the commons registration authority;

“notice of deposit” (“*hysbysiad adneuo*”) has the meaning given in regulation 6(3)(b);

---

(1) 2006 p. 26. Mewnosodwyd adrannau 15A a 15B gan adran 15 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27). Diwygiwyd adran 15A gan adran 53 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) (“Deddf 2015”). Gweler adrannau 15A(9) a 15B(5) am y diffiniad o “prescribed”. Gweler y diffiniadau o “regulations” ac “appropriate national authority” yn adran 61(1). Mae adran 55 o Ddeddf 2015, a pharagraff 9 o Atodlen 7 iddi, yn diwygio adran 61(1) fel bod “appropriate national authority” yn golygu Gweinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 2006 c. 26. Sections 15A and 15B were inserted by section 15 of the Growth and Infrastructure Act 2013 (c. 27). Section 15A was amended by section 53 of the Planning (Wales) Act 2015 (anaw 4) (“the 2015 Act”). For the definition of “prescribed” see sections 15A(9) and 15B(5). See the definitions of “regulations” and “appropriate national authority” in section 61(1). Section 55 of, and paragraph 9 of Schedule 7 to, the 2015 Act amended section 61(1) so that the “appropriate national authority” means the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “datganiad” (“*statement*”) yw datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006;

ystyr “Deddf 2006” (“*the 2006 Act*”) yw Deddf Tiroedd Comin 2006;

mae i “hysbysiad adneuo” (“*notice of deposit*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(3)(b);

ystyr “perchennog perthnasol” (“*relevant owner*”) yw’r perchennog sy’n adneuo datganiad;

ystyr “tir perthnasol” (“*relevant land*”) yw’r tir y mae’r datganiad o dan sylw yn ymwneud ag ef.

“register” (“*cofrestr*”) means the register which the authority is required to keep under section 15B(1) of the 2006 Act with respect to maps and statements deposited under section 15A of that Act;

“relevant land” (“*tir perthnasol*”) means the land to which the statement in question relates;

“relevant owner” (“*perchennog perthnasol*”) means the owner depositing a statement;

“statement” (“*datganiad*”) means a statement under section 15A(1) of the 2006 Act.

### **Ffuriau rhagnodedig y datganiad a’r map**

**3.—(1)** Rhaid i ddatganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006—

- (a) bod ar y ffurf a nodir yn Atodlen 1, neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi, gyda’r mewnosodiadau neu’r hepgoriadau hynny sy’n angenrheidiol mewn achos penodol; a
- (b) cael ei lofnodi—
  - (i) gan bob un o berchnogion y tir perthnasol sy’n unigolyn, neu gan gynrychiolydd iddo a awdurdodwyd yn briodol; a
  - (ii) gan ysgrifennydd neu ryw swyddog arall a awdurdodwyd yn briodol pob un o berchnogion y tir perthnasol sy’n gorff corfforaethol neu’n gymdeithas anghorfforedig.

(2) Rhaid i’r map y mae’n rhaid iddo fynd gyda’r datganiad yn unol ag adran 15A(3) o Ddeddf 2006 fod yn Fap Ordnans, ar raddfa o ddim llai nag 1:10,560, sy’n dangos ffin y tir perthnasol ag ymyl lliwiedig.

### **Ffioedd**

**4.—(1)** Caiff yr awdurdod bennu ffi resymol am adneuo datganiad.

(2) Rhaid i’r perchennog perthnasol dalu unrhyw ffi a bennir yn unol â pharagraff (1) i’r awdurdod.

### **Amseru adneuo**

**5.** Mae datganiad i’w ystyried fel pe bai wedi ei adneuo o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006 ar y diwrnod pan fydd y canlynol wedi dod i law’r awdurdod—

- (a) datganiad sy’n cydymffurfio â rheoliad 3(1);
- (b) map sy’n cydymffurfio â rheoliad 3(2); ac
- (c) unrhyw ffi sy’n daladwy yn unol â rheoliad 4.

### **Prescribed forms of statement and map**

**3.—(1)** A statement under section 15A(1) of the 2006 Act must be—

- (a) in the form set out in Schedule 1, or in a form substantially to the like effect, with such insertions or omissions as are necessary in a particular case; and
- (b) signed—
  - (i) by, or by a duly authorised representative of, every owner of the relevant land who is an individual; and
  - (ii) by the secretary or some other duly authorised officer of every owner of the relevant land which is a body corporate or an unincorporated association.

(2) The map which must accompany the statement in accordance with section 15A(3) of the 2006 Act must be an Ordnance Map, at a scale of not less than 1:10,560, showing the boundary of the relevant land in coloured edging.

### **Fees**

**4.—(1)** The authority may determine a reasonable fee for the deposit of a statement.

(2) The relevant owner must pay any fee determined in accordance with paragraph (1) to the authority.

### **Timing of deposit**

**5.** A statement is to be regarded as having been deposited under section 15A(1) of the 2006 Act on the day when the following have been received by the authority—

- (a) a statement which complies with regulation 3(1);
- (b) a map which complies with regulation 3(2); and
- (c) any fee payable in accordance with regulation 4.

## Rheoli'r datganiad a rhoi cyhoeddusrwydd iddo

6.—(1) Pan fo'r awdurdod yn ystyried na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion y cyfeirir atynt yn rheoliad 3 neu 4(2), rhaid iddo roi hysbysiad i'r perchennog perthnasol i'r perwyl hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad o'r fath—

- (a) nodi'r gofyniad o dan sylw; a
- (b) nodi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod yn ystyried na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad.

(3) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael datganiad yn unol â rheoliad 3(1), map yn unol â rheoliad 3(2) ac unrhyw ffi sy'n ofynnol gan reoliad 4, rhaid i'r awdurdod—

- (a) anfon cydnabyddiaeth eu bod wedi dod i law at y perchennog perthnasol; a
- (b) rhoi hysbysiad bod datganiad wedi ei adneuo ("hysbysiad adneuo") yn unol â pharagraff (4).

(4) Rhaid i'r awdurdod—

- (a) cyhoeddi hysbysiad adneuo ar ei wefan;
- (b) cyflwyno hysbysiad adneuo i unrhyw berson sydd wedi gofyn yn flaenorol am gael ei hysbysu am bob datganiad sydd wedi ei adneuo gyda'r awdurdod ac sydd wedi rhoi cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post i'r awdurdod at y diben hwnnw;
- (c) arddangos hysbysiad adneuo am 60 o ddiwrnodau o leiaf—
  - (i) wrth o leiaf un fynedfa amlwg i'r tir perthnasol, neu yn ei hymyl; neu
  - (ii) mewn unrhyw achos lle na cheir lleoedd o'r fath, mewn o leiaf un lle amlwg ar ffin neu yn ymyl ffin tir o'r fath.

(5) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (4) fod ar y ffurf a nodir yn Atodlen 2, neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi, gyda'r mewnosodiadau neu'r hepgoriadau hynny sy'n angenrheidiol mewn lle penodol.

(6) Pan fo hysbysiad sy'n cael ei arddangos o dan baragraff (4)(c), heb unrhyw fai na bwriad ar ran yr awdurdod, yn cael ei dynnu, ei guddio neu ei ddifwyno cyn i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff hwnnw.

## Managing and publicising the statement

6.—(1) Where the authority considers that any of the requirements referred to in regulation 3 or 4(2) have not been complied with, it must give notice to the relevant owner to that effect.

(2) Such notice must—

- (a) identify the requirement in question; and
- (b) set out the reasons why the authority considers that any requirement has not been complied with.

(3) As soon as practicable after receiving a statement in accordance with regulation 3(1), a map in accordance with regulation 3(2) and any fee required by regulation 4, the authority must—

- (a) send an acknowledgement of receipt to the relevant owner; and
- (b) give notice that a statement has been deposited ("notice of deposit") in accordance with paragraph (4).

(4) The authority must—

- (a) publish notice of deposit on its website;
- (b) serve notice of deposit on any person who has previously asked to be informed of all statements that have been deposited with the authority and who has given the authority an email or postal address for that purpose;

(c) display notice of deposit for at least 60 days—

- (i) at or near at least one obvious place of entry to the relevant land; or
- (ii) in any case where there are no such places, at or near at least one conspicuous place on the boundary of such land.

(5) The notices required by paragraph (4) must be in the form set out in Schedule 2, or in a form substantially to the like effect, with such insertions or omissions as are necessary in a particular place.

(6) Where a notice displayed under paragraph (4)(c) is, without any fault or intention of the authority, removed, obscured or defaced before the period of 60 days has elapsed, the authority is to be treated as having complied with the requirements of that paragraph.

## Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr

7.—(1) Rhaid i'r gofrestr gynnwys—

- (a) manylion cyswllt y person yn yr awdurdod y caniateir gwneud ymholiadau iddo ynghylch y gofrestr;
- (b) mynegai i'r gofrestr; ac
- (c) unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn mewn cysylltiad â phob map a datganiad a adneuir gyda'r awdurdod—

- (a) copi o'r map ac unrhyw allwedd sy'n mynd gyda'r map neu'n ffurfio rhan ohono;
- (b) copi o'r datganiad;
- (c) enw a chyfeiriad y perchennog perthnasol, gan gynnwys ei god post;
- (d) y dyddiad y cafodd y datganiad a'r map eu hadneuo gyda'r awdurdod;
- (e) manylion y tir a amlinellir ar y map, gan gynnwys—
  - (i) cyfeirnod grid chwe ffigur yr Arolwg Ordnans o bwynt o fewn yr ardal a amlinellir;
  - (ii) enw'r ward etholiadol, y dosbarth neu'r gymuned y mae'r tir ynddo neu ynddi;
  - (iii) cyfeiriad a chod post yr adeiladau hynny ar y tir y neilltuwyd cod post iddynt; a
  - (iv) enw'r dref neu'r ddinas sydd agosaf at y pwynt y cyfeirir ato ym mharagraff (i).

## Y modd y cedwir y gofrestr

8.—(1) Rhaid i'r gofrestr—

- (a) cael ei chadw ar ffurf electronig ac ar bapur;
- (b) cael ei chadw mewn rhannau fel bod pob rhan—
  - (i) yn ymwneud â thir o fewn ward etholiadol benodol, dosbarth penodol neu gymuned benodol; a
  - (ii) yn cynnwys yr wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 7.

(2) Rhaid i'r awdurdod gadw'r gofrestr mewn modd sy'n addas i alluogi i gopi o unrhyw fanylion sydd wedi eu cynnwys ar y gofrestr gael ei gymryd gan unrhyw berson, neu ar gyfer unrhyw berson, sy'n gofyn am gopi yn bersonol yn y swyddfa berthnasol.

(3) Rhaid i fersiwn bapur y gofrestr gael ei chadw yn y swyddfa berthnasol.

## Information to be contained in the register

7.—(1) The register must include—

- (a) the contact details of the person in the authority to whom enquiries about the register may be made;
- (b) an index to the register; and
- (c) any other information which the authority considers appropriate.

(2) The register must contain the following information with respect to each map and statement deposited with the authority—

- (a) a copy of the map and any legend accompanying or forming part of the map;
- (b) a copy of the statement;
- (c) the name and address, including the postcode, of the relevant owner;
- (d) the date on which the statement and map were deposited with the authority;
- (e) details of the land delineated on the map, including—
  - (i) the Ordnance Survey six-figure grid reference of a point within the area delineated;
  - (ii) the name of the electoral ward, district or community in which the land is situated;
  - (iii) the address and postcode of those buildings on the land to which a postcode has been assigned; and
  - (iv) the name of the town or city which is nearest to the point referred to in paragraph (i).

## Manner of keeping the register

8.—(1) The register must—

- (a) be kept in electronic and paper form;
- (b) be kept in parts so that each part—
  - (i) relates to land within a particular electoral ward, district or community; and
  - (ii) contains the information referred to in regulation 7.

(2) The authority must keep the register in such manner as is suitable to enable a copy of any of the particulars contained in the register to be taken by or for any person who requests a copy in person at the relevant office.

(3) The paper version of the register must be kept at the relevant office.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr “swyddfa berthnasol” (“*relevant office*”) yw—

- (a) pan fo’r awdurdod wedi pennu swyddfa at ddiben y Rheoliadau hyn ar ei wefan, y swyddfa a bennwyd felly;
- (b) fel arall, prif swyddfa’r awdurdod.

#### **Tynnu cofnodion o’r gofrestr**

9.—(1) Caiff yr awdurdod dynnu cofnod, neu unrhyw ran o gofnod, o’r gofrestr os yw wedi ei fodloni bod y map neu’r datganiad o dan sylw yn cynnwys camgymeriad perthnasol.

(2) Cyn tynnu cofnod o’r gofrestr, rhaid i’r awdurdod roi rhybudd o ddim llai na 28 o ddiwrnodau i’r perchennog perthnasol o’i fwriad i wneud hynny.

(4) In this regulation “relevant office” (“*swyddfa berthnasol*”) means—

- (a) where the authority has specified an office for the purpose of these Regulations on its website, the office so specified;
- (b) otherwise, the principal office of the authority.

#### **Removal of entries from the register**

9.—(1) The authority may remove an entry from the register, or any part of an entry, if it is satisfied that the map or statement in question contains a material error.

(2) Before removing an entry from the register, the authority must give to the relevant owner not less than 28 days notice of its intention to do so.

*Lesley Griffiths*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru  
19 Medi 2018

Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers  
19 September 2018

ATODLEN 1  
Ffurflen y Datganiad

Rheoliad 3(1)(a)

**Ffurflen y datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006**

**Darllenwch y canllawiau a ganlyn cyn llenwi'r ffurflen hon**

1. Rhaid llenwi Rhannau A i C ym mhob achos.
2. Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi a'i ddyddio gan bob un o berchnogion y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef sy'n unigolyn, neu gan gynrychiolydd iddo a awdurdodwyd yn briodol; a chan ysgrifennydd, neu ryw swyddog arall a awdurdodwyd yn briodol, pob un o berchnogion y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef pan fo'r perchennog hwnnw yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig.
3. Yn achos tir sydd o dan gydberchnogaeth, rhaid i'r holl gydberchnogion llenwi paragraffau 2 a 3 o Ran A a llenwi a lofnodi Rhan C, oni bai bod cynrychiolydd a awdurdodwyd yn briodol yn llenwi ac yn lofnodi'r ffurflen ar ran holl berchnogion y tir. Rhaid i baragraff 2 o Ran A gael ei llenwi yn llawn er mwyn egluro'n glir swyddogaeth y person sy'n cyflwyno'r datganiad ar gyfer ei adneuo (e.e., ymddiriedolwr, asiant rheoli'r perchennog tir, ysgutor etc.).
4. Diffinnir perchennog ('owner') yn adran 61(3) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 a'i ystyr yn fras yw perchennog cyfreithiol y buddiant rhydd-ddaliadol yn y tir.
5. Pan fo'r datganiad yn ymwneud â mwy nag un parcel o dir, dylid cynnwys disgrifiad o bob parcel ym mharagraff 5 o Ran A a dylid llenwi gweddill y ffurflen mewn modd sy'n nodi'n glir pa ddatganiad sy'n ymwneud â pha barsei o dir. Gallai hyn olygu mewnosod geiriau ychwanegol. Rhaid nodi parseli lluosog o dir yn glir drwy gyfrwng ymyl lliwiedig ar unrhyw fap sy'n mynd gyda'r datganiad.
6. Rhaid i fap ordnans, y mae'n rhaid iddo fod ar raddfa o ddim llai nag 1:10,560, sy'n dangos ffin y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef ag ymyl lliwiedig, fynd gyda'r datganiad.
7. Rhaid i'r ffi ofynnol fynd gyda datganiad – cysylltwch â'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin perthnasol i gael manylion pellach.

**RHAN A: Gwybodaeth sy'n ymwneud â'r person sy'n cyflwyno'r datganiad i'w adneuo a'r tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef**

1. Enw'r awdurdod neu'r awdurdodau cofrestru tiroedd comin y mae'r datganiad wedi ei gyfeirio ato neu atynt:
2. Statws y person sy'n cyflwyno'r datganiad i'w adneuo (ticiwch y blwch neu'r blychau perthnasol):
  - (a) Fi yw perchennog y tir a ddisgrifir ym mharagraff 5
  - (b) Rwy'n cyflwyno'r datganiad i'w adneuo ar ran [rhowch enw'r perchennog tir] sy'n berchen ar y tir a ddisgrifir ym mharagraff 5 yn fy swyddogaeth fel [rhowch y manylion]



3. Enw, cyfeiriad post llawn (gan gynnwys y cod post), cyfeiriad e-bost a rhif ffôn cyswllt perchennog neu berchnogion y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef. Os oes mwy nag un perchennog tir, rhaid nodi enwau, cyfeiriadau post llawn (gan gynnwys y codau post), cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn cyswllt yr holl berchnogion tir:
4. Enw, cyfeiriad post llawn (gan gynnwys y cod post), cyfeiriad e-bost a rhif ffôn cyswllt unrhyw berson sy'n cyflwyno'r datganiad i'w adneuo ar ran y perchennog neu'r perchnogion:
5. Disgrifiad o'r tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef (gan gynnwys y cyfeiriad llawn a'r cod post):
6. Cyfeirnod neu gyfeirnodau grid chwe ffigur yr Arolwg Ordnans ar gyfer pwynt sydd o fewn arwynebedd y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef (os yw neu os ydynt yn wybyddus):

## **RHAN B: Datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006**

[Fi yw / *[rhowch enw'r perchennog]* yw] perchennog y tir a ddisgrifir ym mharagraff 5 o Ran A o'r ffurflen hon ac a ddangosir wedi ei liwio mewn *[rhowch y lliw]* ar y map sy'n mynd gyda'r datganiad hwn.

[Rwyf / Mae *[rhowch enw perchennog y tir]*] yn dymuno dwyn i ben unrhyw gyfnod lle gallai personau fod wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon drwy hawl ar y tir cyfan neu unrhyw ran o'r tir a ddangosir wedi ei liwio mewn *[rhowch y lliw]* ar y map sy'n mynd gyda'r datganiad hwn.

*(dilŵch y geiriau o fewn cromfachau petryal fel y bo'n briodol a/neu rhowch wybodaeth yn ôl y gofyn)*

## **RHAN C: Datganiad o wirionedd**

**Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad yr ydych yn gwybod ei fod, neu y gallai fod, yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu drwy hynny wneud budd i chi eich hun neu i berson arall, neu beri colled neu'r perygl o golled i berson arall, gallech fod yn cyflawni'r drosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r gosb uchaf am hynny yw carchar am 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.**

**Rwy'n credu bod y ffeithiau a'r materion a gynhwysir ar y ffurflen hon yn wir**

Llofnod (y person sy'n gwneud y datganiad o wirionedd):

Enw llawn (priflythrennau):

Dyddiad (diwrnod / mis / blwyddyn):

**Dylech gadw copi o'r ffurflen sydd wedi ei chwblhau**

**RHAN D: Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r datganiad**

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r datganiad

## Ffurf yr Hysbysiad Adneuo

**Hysbysiad am adneuo gan berchnogion tir o dan adran 15A(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006**

[*Rhowch enw'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin perthnasol*]

Mae datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") wedi ei adneuo mewn perthynas â'r tir a ddisgrifir isod ac a ddangosir mewn [*rhowch y lliw*] ar y map sy'n mynd gyda'r datganiad.

**BYDDWCH CYSTAL Â NODI:**

**Gall adneuo a wneir o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006 effeithio ar y gallu i gofrestru tir o'r fath fel maes tref neu bentref o dan adran 15 o'r Ddeddf honno.**

Disgrifiad o'r tir neu'r tiroedd (gan gynnwys y cyfeiriad llawn a'r cod post):

Cyflwynwyd y datganiad [i'w adneuo gan [*rhowch enw'r perchennog*] / [ar ran [*rhowch enw'r perchennog a nodir*]] a daeth i law'r awdurdod hwn ar [*rhowch y dyddiad*].

Mae'r awdurdod yn cynnal cofrestr o fapiau a datganiadau o dan adran 15B o Ddeddf 2006.

Gellir gweld y gofrestr ar-lein yn [*rhowch gyfeiriad y wefan a'r ddolen*] neu gellir edrych arni yn rhad ac am ddim yn y cyfeiriad isod ac ar yr adegau a nodir isod:

[*Rhowch y cyfeiriad lle gellir gweld y gofrestr*]  
[*Rhowch amserau agor y cyfeiriad lle gellir gweld y gofrestr*]

Llofnodwyd ar ran [*enw'r awdurdod*]:

Enw a swydd y llofnodwr:

Dyddiad:

**SCHEDULE 1**  
**Form of Statement**

Regulation 3(1)(a)

**Form of statement under section 15A(1) of the Commons Act 2006**

**Please read the following guidance before completing this form**

1. Parts A to C must be completed in all cases.
2. The statement must be signed and dated by, or by a duly authorised representative of, every owner of land to which the statement relates who is an individual; and by the secretary or some other duly authorised officer of every owner of land to which the statement relates where that owner is a body corporate or an unincorporated association.
3. In the case of land in joint ownership, all the joint owners must complete paragraphs 2 and 3 of Part A and complete and sign Part C, unless a duly authorised representative completes and signs the form on behalf of all the owners of the land. Paragraph 2 of Part A must be completed in full to clearly explain the capacity of the person submitting the statement for deposit (e.g. trustee, landowner's managing agent, executor etc.).
4. 'Owner' is defined in section 61(3) of the Commons Act 2006 and broadly means a legal owner of the freehold interest in the land.
5. Where the statement relates to more than one parcel of land, a description of each parcel should be included in paragraph 5 of Part A and the remainder of the form should be completed to clearly identify which statement relates to which parcel of land. This may require the insertion of additional wording. Multiple parcels of land must be clearly identified by coloured edging on any accompanying map.
6. A statement must be accompanied by an ordnance map, which must be at a scale of not less than 1:10,560 showing the boundary of the land to which the statement relates in coloured edging.
7. A statement must be accompanied by the requisite fee – please consult the relevant Commons Registration Authority for further details.

**PART A: Information relating to the person submitting the statement for deposit and land to which the statement relates**

1. Name of the commons registration authority (or authorities) to which the statement is addressed:
2. Status of person submitting the statement for deposit (tick relevant box or boxes):  
I am:  
(a) The owner of the land described in paragraph 5   
(b) Submitting the statement for deposit on behalf of [*insert name of the landowner*] who is

the owner of the land described in paragraph 5 in my capacity as *[insert details]*

3. Name, full postal address (including postcode), email address and contact telephone number of the owner(s) of the land to which the statement relates. If there is more than one landowner, the names, full postal addresses (including postcodes), email addresses and contact telephone numbers of all landowners must be stated:
4. Name, full postal address (including postcode), email address and contact telephone number of any person submitting the statement for deposit on behalf of the owner(s):
5. Description of the land to which the statement relates (including full address and postcode):
6. Ordnance Survey six-figure grid reference(s) of a point within the area of the land to which the statement relates (if known):

### **PART B: Statement under section 15A(1) of the Commons Act 2006**

[I am / *[insert name of owner]* is] the owner of the land described in paragraph 5 of Part A of this form and shown coloured *[insert colour]* on the map accompanying this statement.

[I / *[insert name of owner of the land]*] [wish/wishes] to bring to an end any period during which persons may have indulged as of right in lawful sports and pastimes on the whole or any part of the land shown coloured *[insert colour]* on the accompanying map.

*(delete wording in square brackets as appropriate and/or insert information as required)*

### **PART C: Statement of truth**

**If you dishonestly enter information or make a statement that you know is, or might be, untrue or misleading, and intend by doing so to make a gain for yourself or another person, or to cause loss or the risk of loss to another person, you may commit the offence of fraud under section 1 of the Fraud Act 2006, the maximum penalty for which is 10 years' imprisonment or an unlimited fine, or both.**

**I believe the facts and matters contained in this form are true**

Signature (of the person making the statement of truth):

Full name (printed):

Date (day / month / year):

**You should keep a copy of the completed form**

**PART D: Additional information relevant to the statement**

Insert any additional information relevant to the statement

## SCHEDULE 2

Regulation 6(5)

### Form of Notice of Deposit

#### Notice of landowner deposits under section 15A(1) of the Commons Act 2006

*[Insert name of relevant Commons Registration Authority]*

A statement under section 15A(1) of the Commons Act 2006 (“the 2006 Act”) has been deposited in relation to the land described below and shown *[insert colouring]* on the accompanying map.

**PLEASE NOTE:**

**Deposits made under section 15A(1) of the 2006 Act may affect the ability to register such land as a town or village green under section 15 of that Act.**

Description of the land(s) (including full address and postcode):

The statement was submitted [for deposit by *[insert name of owner]* / [on behalf of *[insert name of stated owner]*] and was received by this authority on *[insert date]*.

The authority maintains a register of maps and statements under section 15B of the 2006 Act.

The register can be accessed online at *[insert web address and link]* or can be inspected free of charge at the address and times indicated below:

*[Insert address of where the register can be viewed]*

*[Insert opening times of the address where the register can be viewed]*

Signed on behalf of *[name of authority]*:

Name and position of signatory:

Date:

---

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2018 Rhif 1021 (Cy. 212)**

**2018 No. 1021 (W. 212)**

**TIROEDD COMIN, CYMRU**

**COMMONS, WALES**

Rheoliadau Meysydd Tref a  
Phentref (Datganiadau Perchnogion  
Tir) (Cymru) 2018

The Town and Village Greens  
(Landowner Statements) (Wales)  
Regulations 2018

£6.90

W201809211005 09/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/1021>

ISBN 978-0-348-20275-5



9 780348 202755